Cynllun Iaith Gymraeg

Dogfen ymatebion, Chwefror 2010

1 Cyflwyniad

1.1 Yn unol â Deddf Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf), mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, baratoi cynllun sy'n amlinellu sut bydd yn darparu'r gwasanaethau hyn yn y Gymraeg.

1.2 Roedd y Comisiwn Hapchwarae (y Comisiwn) yn ymgynghori ar ddrafft o'r cynllun yn ddiweddar.

1.3 Mae'r cynllun yn amlinellu sut byddwn ni'n gweithredu, hyd y mae'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor a sefydlwyd gan y Ddeddf y dylid ymdrin â'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni ei fusnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

1.4 Mae'r cynllun yn ymwneud â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae ein cyfathrebu cychwynnol yn targedu'r sefydliadau a'r unigolion hynny sy'n ymwneud â darparu hapchwarae o fewn Prydain Fawr a budd-ddeiliaid eraill sydd â diddordeb mewn hapchwarae.

1.5 Gellir cael mwy o wybodaeth am gwmpas a phwrpas cynlluniau iaith Gymraeg yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) (www.Welsh-language-board.org.uk)

1.6 Paratowyd y cynllun yn unol ag Adran 14 y Ddeddf - ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Bwrdd yn Adran 9 y Ddeddf. Daeth i rym ar 29 Ionawr 2010.

2 Ymatebion i'r ymgynghoriad

2.1 Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 30 Tachwedd 2009 a gorffen ar 25 Ionawr 2010. Hysbysebwyd yr ymgynghoriad yn amlwg ar wefan y Comisiwn ac amlygwyd i ddarpar ymatebwyr drwy ein e-fwletin bob pythefnos. Mae hwn â chylchrediad o dros 4,000 o unigolion sydd â diddordeb yng ngwaith y Comisiwn. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb.

3 Gweithredu

3.1 Gan na dderbyniwyd unrhyw ymateb, cyflwynwyd y fersiwn o'r cynllun yr oedd y Comisiwn wedi ymgynghori arno, i'r Bwrdd i'w gymeradwyo'n ffurfiol. Cafwyd hwn ar 29 Ionawr 2010 a mabwysiadwyd y cynllun gan y Comisiwn i'w weithredu ar unwaith.

Y Comisiwn Hapchwarae Chwefror 2010

Cadw hapchwarae'n deg a diogel i bawb

Mae copïau o'r ddogfen hon ar gael mewn sawl fformat o wneud cais.

Y Comisiwn Hapchwarae
Victoria Square House
Victoria Square
Birmingham B2 4BP

T 0121 230 6666 **F** 0121 230 6720 **E** info@gamblingcommission.gov.uk **CON 10/R01W**